



Pharmacy Research UK



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwella Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Cyfleoedd Cyllido Ymchwil 2021/2022 Cymrodoriaethau Newydd i Ymchwil (Fferylliaeth)

Mae'n bleser gan RCBC (Cydwethrediad Cynyddu Gwaith Ymchwil) Cymru (<http://www.rcbcwales.org.uk>) gyhoeddi bod cyllid ar gael ar gyfer Cymrodoriaethau 'Newydd i Ymchwil' mewn Fferylliaeth wedi eu hariannu gan 'Pharmacy Research UK' ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (Fferylliaeth) i gychwyn ar **EBRILL 1^{af} 2022**. Gwahoddir ceisiadau gan bobl broffesiynol ym maes iechyd cofrestredig cymwys ar gyfer cymrodoriaethau RCBC Cymru a ddyfarnwyd i'r prifysgolion RCBC Cymru hynny sy'n cydweithio ar hyn (gweler y rhestr isod).

Rhaid i bob ymgeisydd fod yn gofrestrdig yn y DU fel Fferylllydd (a rhaid eu bod wedi cofrestru gyda'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol - GPhC - ar gychwyn yr astudiaeth).

Ariennir Cymrodoriaethau Newydd i Ymchwil am 1 diwrnod yr wythnos am 12 mis. Mae'r Cymrodoriaethau wedi'u targedu at newydd-ddyfodiaid i fyd ymchwil neu'r rhai sy'n dymuno datblygu hyder mewn ymchwil, i weithio ar brosiectau sy'n ceisio atebion i gwestiynau perthnasol i fyd Fferylliaeth. Rhaid i brosiectau fod yn gyraeddadwy o fewn yr amserlen a gallan nhw gwmpasu sbectrwm eang o weithgaredd yn amrywio o strategaethau sefydliadol i ymchwil unigol mwy annibynnol.

Bwriad cronfeydd Cymrodoriaethau Newydd i Ymchwil (FiR) ydy cyfrannu i ryddhau'r Cymrawd o'i lleoliad/leoliad gwaith. Caiff y Cymrodyr eu goruchwyllo gan ymchwilwyr profiadol a byddan nhw'n cael mynediad i hyfforddiant dulliau ymchwil gan y brifysgol sy'n eu lletya. Mae'n un o ofnion y dyfarniad bod pob Cymrawd yn dod yn aelodau o Gymuned yr Ysgolorion (Community of Scholars - CoS) ac yn mynychu dyddiau astudio 'CoS'. Bydd angen i'r Cymrodyr gyflwyno eu hymchwil ar ddiwedd y gwaith mewn digwyddiad Cymuned yr Ysgolorion.

Dylai pob cais gynnwys ymrwymiad i themâu a blaenoriaethau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a'r Sefydliad perthnasol byddan nhw wedi gwneud cais ato o ran cynorthwyo a datblygu ymchwil rhagorol sy'n effeithio'n bositif ar iechyd, llesiant a ffyniant pobl yng Nghymru. Gall y rhain gynnwys astudio unrhyw agwedd o fyd practis fferylliaeth sydd yn ffocysu'n benodol ar y canlynol:

- rolau proffesiynol newydd neu sy'n dod i'r golwg
- gofal integredig
- egwyddorion gofal iechyd darbodus, h.y.:
 - cleifion a phobl broffesiynol yn bartneriaid cydradd drwy gyd-gynhyrchu
 - gofal ar gyfer y rhai gyda'r angen iechyd mwyaf yn gyntaf
 - gwneud yr hyn sydd ei angen yn unig a pheidio gwneud unrhyw niwed
 - lleihau amrywiaeth amhriodol drwy ddulliau o fynd ati yn seiliedig ar dystiolaeth.

Mae strategaeth ymchwil 'Pharmacy Research UK' yn nodi rhai meysydd ymchwil allweddol sydd o ddiddordeb arbennig i'r sefydliad. Cewch ragor o fanylion am hyn ar: <http://pharmacyresearchuk.org/our-research/research-strategy/>.

Meini prawf Cymhwysra

- Rhaid i bob ymgeisydd fod yn gofrestrdig yn y DU fel Fferylllydd (h.y. rhaid eu bod wedi cofrestru gyda'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol - GPhC - ar gychwyn yr astudiaeth).
- Mae angen i ymgeiswyr feddu ar radd gyntaf neu gyfwerth a ddyfarnwyd gan Brifysgol neu Sefydliad a gydnabyddir gan y 6 Sefydliad Addysg Uwch sy'n ymwneud â RCBCCYmru.
- Rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus breswyllo yng Nghymru drwy gydol cyfnod y dyfarniad.
- Sylwer nad corff cyflogi ydy RCBCCYmru a rhaid i'r holl Gymrodwr fod mewn cyflogaeth yng Nghymru er mwyn ymgymryd â Chymrodoriaeth

Rheolir y broses recriwtio ar gyfer y Cymrodoriaethau Newydd i Ymchwil gan Brifysgol De Cymru gyda mewnbwn gan bob prifysgol cydweithrediadol. Lleolir Cymrodoriaethau o fewn grŵp ymchwil sefydledig o fewn grwpiau ymchwil sefydledig o fewn yr Ysgolion/Adrannau cydweithrediadol a restrir isod. Neilltuir o leiaf un goruchwyliwr ar gyfer y Cymrodwr, gyda'r prif fentor wedi ei leoli o fewn un o Ysgolion/Adrannau y bartneriaeth RCBCCYmru.

Y Broses o Wneud Cais		Dedlein/Dyddiadau allweddol
Cam 1	Cysylltu ag Arweinydd Gweithredol yn eich dewis cyntaf o brifysgol er mwyn trafod eich darpar gais ac i bennu ac enwi goruchwylydd	Yn syth a chyn cyflwyno eich ffurflenni gwirio cymhwysra
Cam 2	Ffurflenni gwirio cymhwysra i'w cwblhau a'u dychwelyd at: marina.mcdonald@southwales.ac.uk	26 TACHWEDD 2021
Cam 3	Er mwyn cynorthwyo i fireinio eu syniadau, gwahoddir ymgeiswyr cymwys i gymryd rhan mewn gweminar gydag arbenigwyr mewn dylunio ymchwil, dulliau ansoddol a meintiol, cynnwys cleifion, moeseg, a pholisi iechyd a gwella gwasanaethau. Byddant hefyd yn ystyried sicrhau'r effaith fwyaf bosibl a rheoli eu prosiect	Cynhelir y weminar ar 30 TACHWEDD 2021
Cam 4	Gwahoddir ymgeiswyr cymwys i gyflwyno ffurflen gais gyda chynnig llawn	7^{fed} Ionawr 2022.
Cam 5	Ar ôl llunio rhestr fer o geisiadau o'r cynigion llawn, dewisir drwy gyfweiliad.	Cynhelir cyfweiliadau yn ystod yr wythnos yn cychwyn 7^{fed} CHWEFROR 2022
Cam 6	Bydd y Cymrodoriaethau yn cychwyn	1^{af} EBRILL 2022

Ein nod ydy y bydd ymgeiswyr yn cael eu hysbysu cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y ffurflen gwirio cymhwysedd a ydyn nhw'n cwrdd â'r meini prawf cymhwysra.

Mae'r ffurflenni cais perthnasol a chanllawiau pellach (yn cynnwys manylion am gyllido) ar gael ar www.rcbcwales.org.uk

Am wybodaeth am gyfleoedd penodol, cysylltwch yn uniongyrchol â'r sefydliadau perthnasol (rhestrir y manylion cyswllt isod). Ar gyfer ymholiadau cyffredinol cysylltwch â Marina McDonald, RCBCCYmru, Prifysgol De Cymru. E-bost: marina.mcdonald@southwales.ac.uk

Sefydliadau Cydweithredol a Manylion Cyswllt:

Prifysgol De Cymru
Cyfadran Gwyddorau Bywyd ac Addysg
Arweinyddion Gweithredol: Dr Gina Dolan
E-bost: gina.dolan@southwales.ac.uk

Prifysgol Bangor
Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd
Arweinydd Gweithredol: Dr Lorelei Jones
E-bost: lorelei.jones@bangor.ac.uk

Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Ysgol Gwyddorau Iechyd
Arweinydd Gweithredol: Dr Robert Mayr
E-bost: rmayr@cardiffmet.ac.uk

Prifysgol Caerdydd
Ysgol Astudiaethau Gofal Iechyd
Arweinyddion Gweithredol: Yr Athro Danny Kelly
E-bost: KellyDM@cardiff.ac.uk
Neu Dr Paul Gill:
E-bost: GillP3@cardiff.ac.uk

Prifysgol Glyndŵr Wrecsam
Adran Gwyddorau Cymdeithasol ac Addysg
Arweinydd Gweithredol: Dr Joanne Pike
E-bost: j.pike@glyndwr.ac.uk

Prifysgol Abertawe
Ysgol Gwyddorau Iechyd
Arweinydd Gweithredol: Yr Athro Jaynie Rance
E-bost: j.y.rance@swansea.ac.uk

